




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynllun iaith Gymraeg Ymgynghoriad 2014

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar **8 Hydref 2014**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gorffen ar **3 Rhagfyr 2014**





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynllun iaith Gymraeg Ymgynghoriad 2014

Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn <http://www.gov.uk/moj>

Am yr ymgynghoriad hwn

Ar gyfer:	Unrhyw sefydliad neu aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru
Hyd:	O 08 Hydref 2014 i 03 Rhagfyr 2014
Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am gael y papur mewn fformat arall) i:	Aeion Swinton Ministry of Justice Analytical Services Directorate, Better Regulations 7 th Floor 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 3904 E-bost: Aeion.Swinton@justice.gsi.gov.uk
Sut i ymateb:	Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Rhagfyr 2014 at: (drwy'r post) Aeion Swinton Ministry of Justice Analytical Services Directorate, Better Regulations 7 th Floor 102 Petty France Llundain SW1H 9AJ Ffôn: 020 3334 3904 Drwy'r e-bost: MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk
Ffyrdd ychwanegol o rannu'ch barn:	Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod ar gyfer ymholiadau
Papur ymateb:	Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i'w gyhoeddi erbyn haf 2015 yn: http://www.gov.uk/moj

Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Trosolwg ar y cynllun diwygiedig arfaethedig	5
Ynghylch cwestiynau'r ymgynghoriad	7
Atodiad 1: Y cynllun diwygiedig arfaethedig	8
Atodiad A -Y sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder	22
Atodiad B - System sgorio Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer ffurflenni	26
Atodiad C - System sgorio Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer cyhoeddiadau	28
Atodiad D - Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2014	31
Holiadur	38
Amdanoch chi	40
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	41
Egwyddorion ymgynghori	43


Rhagair

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i gydnabod pwysigrwydd, arwyddocâd diwylliannol a gwerth yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn cadw ein parch at anghenion pobl y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith ganddynt. Mae ein cynllun iaith Gymraeg yn glynu wrth yr egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Byddwn yn gweithredu yn y modd hwn gan ei addasu i amgylchiadau penodol yn y ffordd sy'n fwyaf priodol a rhesymol ymarferol.

Cyhoeddwyd ein cynllun am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2010. Rydym wedi'i ddiweddarau ers hynny i sicrhau ei fod yn aros yn effeithiol. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys cynllun iaith Gymraeg diwygiedig arfaethedig yr adran. Mae'n disgrifio'r ffordd y byddwn yn parhau i gefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r cynllun, wrth ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol ac wrth gynnal busnes corfforaethol â'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn croesawu adborth ar y cynllun arfaethedig. Bydd hyn yn ein helpu i wella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n busnes yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen gyda diddordeb at weld canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ac at weithredu'r cynllun diwygiedig.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Simon Hughes', with a horizontal line underneath.

Simon Hughes
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil

Cyflwyniad

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gwasanaethu'r cyhoedd drwy gynnal trefn y gyfraith, a thrwy ddarparu system gyfiawnder sy'n effeithlon, teg, amserol ac effeithiol ac yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adran lywodraeth sydd â chyfrifoldebau pellgyrhaeddol sy'n cynnwys Cymru a Lloegr ac mewn rhai achosion yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder Asiantaethau a changhennau cyflawni busnes sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o Brydain Fawr a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ei chynllun iaith Gymraeg am y tro cyntaf yn 2010 gan roi'r egwyddor hon ar waith.

Mae cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu'r meysydd busnes a thimau ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys swyddogaethau'r adran o ran polisi, cyllid corfforaethol, masnach, caffael, adnoddau dynol, ystadau, TG a chyfathrebu. Mae'r rhan fwyaf o fusnes a gwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru'n cael ei darparu gan un o brif gyff cyflawni'r adran. Ymhlith y rhain y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn yn dod o dan gynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan eu bod yn datblygu, neu wedi datblygu, eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.

Felly, yn y ddogfen hon, mae cyfeiriadau at "y Weinyddiaeth Cyfiawnder" a "ni" yn gyfeiriadau at bencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac nid ydynt yn cynnwys canghennau cyflawni'r Adran, fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Ar ddiwedd pob blwyddyn o weithredu'r cynllun, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi adrodd ar ei pherfformiad o dan y cynllun, yn y flwyddyn gyntaf i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac wedyn mewn blynyddoedd dilynol i'w olynydd, Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi ystyried adborth, awgrymiadau ac argymhellion gan y cyrff hynny er mwyn gwella ein cynllun o flwyddyn i flwyddyn.

Mae cynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i adolygu ar ôl ei weithredu am dair blynedd llawn. Mae'r papur hwn yn cynnwys cynllun iaith Gymraeg diwygiedig arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn ymgynghori arno. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer sefydliadau neu bersonau sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru neu Loegr sef y cyhoedd, swyddogion barnwrol, gweision sifil a swyddogion llywodraeth eraill, unigolion, sefydliadau a busnesau sydd un ai'n ein helpu i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru neu'n derbyn y gwasanaethau hynny.

Trosolwg ar y cynllun diwygiedig arfaethedig

Mae'r rhan fwyaf o gynnwys y cynllun presennol yn berthnasol a phriodol o hyd ar gyfer cynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru ac mae'r adroddiadau monitro blynyddol yn dangos ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r cynllun presennol wedi'i chadw yn y cynllun diwygiedig. Y prif newidiadau yw bod rhai camau gweithredu a gweithgareddau ychwanegol wedi'u cynnwys ar gyfer monitro i sicrhau bod staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder a busnesau sy'n cyflenwi gwasanaethau yng Nghymru'n rhoi ystyriaeth ddyladwy i ddarpariaethau'r cynllun ynghylch defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r cynllun diwygiedig arfaethedig wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Yn y cynllun diwygiedig, mae adran "Cyflwyniad" ac adrannau pellach sy'n ymdrin â "Datblygu Polisi", "Recriwtio", "Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd" a rhai hefyd sy'n ymwneud â'r ffordd y byddwn yn Gweithredu, yn Monitro ac yn Cyhoeddi'r cynllun.

Mae'r "Cyflwyniad" yn cadarnhau ymrwymiad y Weinyddiaeth Cyfiawnder i'r Gymraeg. Mae'n egluro'r gweithgareddau y mae'r adran yn eu cyflawni yn ei meysydd cyfrifoldeb, un ai drwy ei chyrrff cysylltiedig neu drwy'r gwahanol feysydd busnes y mae'r adran yn eu cynnwys a pha rai o'r canghennau cyflawni hyn sydd â'u cynllun iaith Gymraeg eu hunain – oherwydd eu ffordd o gynnal gwasanaethau a busnes yng Nghymru. Mae'r adran hon o'r cynllun yn dangos hefyd sut y byddwn yn cydweithio â'r Farnwriaeth i sicrhau bod modd cyflawni pob agwedd o'r darpariaethau yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 wrth gynnal achosion cyfreithiol drwy'r llysoedd a thribiwnlysoedd.

Mae'r adran "Datblygu Polisi" yn rhoi cyfrifoldebau i lunwyr polisi a chynghorwyr yr adran ar gyfer ystyried pa effaith, os o gwbl, y bydd polisiâu a mentrau newydd yn ei chael ar siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r adran hon hefyd yn datgan bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i sicrhau bod ei changhennau cyflawni'n gallu cyflawni eu hymrwymadau o dan bob un o'u cynlluniau iaith Gymraeg. Cyfeirir hefyd at ein cysylltiadau â Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar y Gymraeg.

Mae'r adran "Recriwtio" yn darparu ar gyfer ystyried y Gymraeg wrth recriwtio staff, wrth recriwtio a lleoli swyddogion Barnwrol ac mewn penodiadau cyhoeddus eraill.

Mae'r adran "Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd" yn egluro safonau a dull cyffredinol y Weinyddiaeth Cyfiawnder o gyflawni hyn ac yn ymdrin â'r gwahanol ffyrdd y byddwn yn cyfathrebu a'r safonau y byddwn yn ceisio eu cyrraedd wrth wneud hynny. Mae hefyd yn disgrifio'r ystyriaeth sy'n berthnasol o ran y Gymraeg wrth ddyrannu grantiau.

Mae adran 5 o'r cynllun yn ymdrin â gweithredu, monitro a chyhoeddi'r cynllun.

Mae Atodiad A i'r cynllun yn rhestr wedi'i diweddarau o gyrff sy'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sydd un ai'n dod o dan y cynllun diwygiedig hwn neu sydd wedi datblygu eu cynllun eu hunain neu'n bwriadu gwneud hynny.

Mae Atodiadau B a C i'r cynllun yn offer ar gyfer asesu "ymarferoldeb" wrth ystyried a ddylid darparu cyfieithiadau Cymraeg o gyhoeddiadau a ffurflenni. Mae hyn yn bwysig o hyd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gan y bydd angen i ni roi cyhoeddusrwydd i nifer o'n

meysydd gweithgarwch a allai fod heb unrhyw oblygiadau i'r Gymraeg neu i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae Atodiad D i'r cynllun yn gynllun gweithredu diwygiedig sy'n amserlennu rhai camau gweithredu newydd ac ychwanegol. Pwrpas y camau gweithredu hyn yw parhau i hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn a'i ddarpariaethau ar draws yr Adran a'i gymhwyso'n fwy cyson a monitro gweithrediad y cynllun yn well. Pan gyflwynir y cynllun diwygiedig, bydd y cyfrifoldeb dros y camau gweithredu'n cael ei roi i'r meysydd busnes penodedig yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a fydd yn goruchwyllo'r broses o weithredu, mesur cynnydd a monitro ar gyfer y camau penodedig.

Rydym wedi asesu effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig yn y cynllun diwygiedig ac mae'r asesiad hwn yn dangos nad yw'r cynigion sydd yn y papur hwn yn debygol o arwain at gostau ychwanegol neu arbedion i fusnesau, elusennau, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Bydd nifer o'r newidiadau a gyflwynir yn y cynllun diwygiedig arfaethedig hwn yn golygu y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyflawni gweithgareddau monitro amrywiol sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun hwn, ac maent hefyd yn cymhell yr adran i gymryd camau i gynnal ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn. O ganlyniad i hyn, nid oes Asesiad Effaith yn y papur hwn.

Mae asesiad sgrinio cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y cynllun diwygiedig drafft sydd yn y papur hwn. Nid yw'r asesiad sgrinio cychwynnol hwn wedi dangos bod unrhyw effeithiau gwahaniaethol yn codi o'r cynigion ac eithrio: (a) y budd i siaradwyr Cymraeg o ran gallu defnyddio eu dewis iaith wrth ddelio â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder; a (b) rhoi gwell sicrwydd i siaradwyr Cymraeg ynghylch lefel y trefniadau ar gyfer y Gymraeg y bydd yr adran hon yn ei darparu.

Ynghylch cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym yn ymgynghori er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd, unigolion, sefydliadau a busnesau sydd un ai'n ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau yng Nghymru, neu'n eu derbyn, i rannu eu barn am y cynllun diwygiedig ac i gynnig unrhyw syniadau eraill ynghylch sut i ddiwygio'r cynllun ymhellach. Rydym am fanteisio ar wybodaeth, arbenigedd a barn y partïon cysylltiedig, ein rhanddeiliaid, a'r cyhoedd, i sicrhau bod cynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn effeithiol a'i fod yn cyflawni ei bwrpas arfaethedig.

Rydym yn gobeithio cyfathrebu ag ystod eang o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu busnes a gwasanaethau yng Nghymru. Rydym hefyd yn gobeithio cyfathrebu â chynifer â phosibl o grwpiau a sefydliadau sydd â diddordebau tebyg yn y Gymraeg. Byddwn yn cyfathrebu â'r grwpiau hyn ac aelodau o'r cyhoedd drwy osod yr ymgynghoriad ar wefan GOV.UK. Byddwn yn hysbysu partïon amdano drwy ddefnyddio cronfa ddata'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o randdeiliaid i bennu unigolion / sefydliadau sydd â diddordeb yn y Gymraeg a fydd yn rhoadru gwybodaeth amdano yn eu tro i'w cysylltwyr / aelodau / tanysgrifwyr eu hunain drwy gylchlythyrau etc.

Rydym am sicrhau bod unrhyw newidiadau yng nghynllun iaith Gymraeg diwygiedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder a wneir o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r syniadau ac argymhellion mwyaf priodol gan bersonau sydd wedi ystyried y materion dan sylw ac wedi ymateb o ganlyniad i hynny.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn cynnwys holiadur (tudalen 38). Rydym yn gwahodd ymatebwyr i lenwi'r holiadur hwn. Mae'r holiadur wedi'i eirio mewn ffordd a fydd yn galluogi ymatebwyr i wneud sylw am unrhyw agwedd ar y cynllun diwygiedig, sydd wedi'i gyflwyno yn y papur hwn.

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y canlynol:

Y prif gyrff neu bersonau proffesiynol

Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr; Uwch Farnwyr Llywyddol Cymru; nifer o Farnwyr eraill yr Uchel Lys sy'n cynrychioli swyddfeydd a chyrff Barnwrol eraill; Barnwyr Tribiwnlysoedd; Barnwyr Rhanbarth; Ynadon Heddwch; Cyfarwyddwr Cymru'r Gyfraith; Cyfarwyddwr Cyflawni GLITEM dros Gymru; Pennaeth Materion Cymreig GLITEM; Pennaeth yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; Penaethiaid Mewnol Gwasanaethau / Meysydd Busnes y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Phennaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Prif grwpiau cynrychiadol

Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar y Gymraeg; Cymdeithas yr Ynadon; Cadeirydd fforymau Cadeiryddion Mainc; Llywodraeth Cymru; Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr; Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; y Gwasanaeth Prawf; Swyddfa Cymru; Gwasanaeth Eryl y Goron; CAF/CASS Cymru; Cymorth i Ddiodefwyr; grŵp uwch reolwyr Cymru y Weinyddiaeth Cyfiawnder (uwch gynrychiolwyr NOMS Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru etc).

Atodiad 1: Y cynllun diwygiedig arfaethedig

Cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

1. Cyflwyniad

1. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adran llywodraeth ganolog sy'n gwasanaethu'r cyhoedd drwy gynnal trefn y gyfraith, a thrwy ddarparu system gyfiawnder sy'n effeithlon, teg, amserol ac effeithiol ac yn ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd.
 - Rydym yn gorfodi penderfyniadau'r llys: rydym yn cosbi troseddwr ac yn gweithio i ostwng aildroseddu. Rydym yn atal dioddefwyr drwy newid bywydau.
 - Mewn partneriaeth â barnwriaeth annibynnol, rydym yn rhedeg y gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd, gan helpu unigolion, busnesau a theuluoedd i ddatrys eu anghydfodau.
 - Rydym yn amddiffyn aelodau o gymdeithas sy'n agored i niwed a phlant, ac yn helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyfiawnder.
 - Rydym yn darparu cymorth a chyngor cyfreithiol ar gyfer yr achosion hynny lle y mae cyfiawnhad dros wneud hynny.
 - Rydym yn datblygu polisi ar bob agwedd ar y gyfraith a chyfiawnder, ar lefel ddomestig a rhyngwladol, gan helpu i adeiladu fframwaith cyfreithiol a hawliau sy'n glir a chymesur ac sy'n ennyn ymddiriedaeth o gwmpas y byd.
2. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Mae'r cynllun hwn yn egluro sut y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i roi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt i'r cyhoedd yng Nghymru. Enw'r Adran hon yn Gymraeg yw *Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*.
3. Mae cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu'r meysydd busnes a thimau ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan gynnwys swyddogaethau'r adran o ran polisi, cyllid corfforaethol, masnach, caffael, adnoddau dynol, ystadau, TG a chyfathrebu. Mae'r rhan fwyaf o fusnes a gwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru'n cael ei darparu gan un o brif gyrff cyflawni'r adran. Ymhlith y rhain y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (NOMS), a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau hyn yn dod o dan gynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan eu bod yn datblygu, neu wedi datblygu, eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.
4. Felly mae cyfeiriadau yn y cynllun at "y Weinyddiaeth Cyfiawnder" a "ni" yn cyfeirio at bencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac nid ydynt yn cynnwys canghennau cyflawni'r Adran, fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei

Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

5. Mae'r cynllun hwn yn cymryd lle cynllun iaith Gymraeg blaenorol y Weinyddiaeth Cyfiawnder a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 ac mae wedi'i baratoi'n unol ag Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
6. Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wedi cymeradwyo'r cynllun hwn i'w ddefnyddio ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mewn nifer o'r cyrff y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn eu noddi. Mae rhestr lawn o'r cyrff a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Atodiad A.
7. Mae'r cynllun hwn wedi'i fabwysiadu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a chafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar **[Y dyddiad i'w ychwanegu]**

2. Datblygu a Gweithredu Polisi

1. Fel un o adrannau Llywodraeth mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol yn gyffredinol am gynghori Gweinidogion ynghylch datblygu polisiâu a mentrau newydd, am rai swyddogaethau cymorth ac mewn rhai amgylchiadau am bennu natur gwasanaethau sydd i'w darparu gan eraill. Byddwn yn sicrhau bod staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisi a pharatoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn ystyried y cynllun hwn a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Wrth ystyried a datblygu polisiâu newydd, neu adolygu polisiâu presennol yng nghwrs arferol ein busnes polisi, byddwn:
 - yn asesu'r canlyniadau ieithyddol i bolisiâu sy'n effeithio ar wasanaethau a ddarperir i'r bobl yng Nghymru;
 - yn ceisio sicrhau na fydd polisiâu newydd a phresennol yn rhwystr rhag hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;
 - yn gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

2. Wrth ystyried gweithredu polisiâu neu ddiwygiadau, byddwn yn asesu'r canlyniadau ieithyddol i wasanaethau a ddarperir i bobl Cymru, ac yn ceisio osgoi unrhyw rwystr rhag hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd ac yn gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol. Pan fydd polisiâu'n cael eu gweithredu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn uniongyrchol, neu drwy drydydd partïon, byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yng Nghymru mewn ffordd sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, er enghraifft:
 - drwy helpu cyrff sy'n gwneud rheolau lle y bo angen i ddiwygio rheolau, gweithdrefnau neu ffurfiau rhagnodedig i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg os yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl yng Nghymru;
 - drwy sicrhau bod manylebau ar gyfer gwasanaethau sydd i'w darparu ar ein rhan gan sefydliadau eraill yn cynnwys mesurau perthnasol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft,
 - bod gwybodaeth a argreffir fel taflenni a phecynnau gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg,
 - y ceir defnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn unrhyw ddigwyddiad¹ yng Nghymru ac mewn unrhyw fusnes arall gyda'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth. Bydd y rhai a fydd yn y digwyddiad yn cael eu gwahodd, o leiaf bythefnos cyn y digwyddiad, i ddweud a ydynt yn bwriadu siarad yn Gymraeg.

¹ Ystyr digwyddiad yw unrhyw gynhadledd, seminar neu gyfarfod sydd wedi'i hysbysebu i'r cyhoedd yng Nghymru

3. Pan fyddwn yn datblygu neu'n darparu systemau a chynhyrchion TG, neu'n diweddarau rhai presennol, byddwn:
 - ar y dechrau'n asesu'r anghenion ieithyddol yng nghyswllt gwasanaethau a gaiff eu darparu yng Nghymru;
 - yn ceisio osgoi unrhyw rwystr rhag hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd, ac yn gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
 - Pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau TGCh, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg Gymraeg a'r nodyn cyngor ar Egwyddorion Meddalwedd Dwyieithog.

4. Ni fydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ymwneud yn uniongyrchol fel arfer â darparu gwasanaethau penodol i'r cyhoedd, gan fod y rhain yn cael eu darparu fel arfer gan ganghennau cyflawni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, fel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

5. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn galluogi'r sefydliadau hyn, i'r graddau y mae hynny o fewn ein cyfrifoldebau ac yn gymesur, i gyflawni'r ymrwymadau sydd wedi'u gwneud yn eu cynlluniau drwy:
 - helpu cyrff sy'n gwneud rheolau lle y bo angen i ddiwygio rheolau, gweithdrefnau neu ffurfiau rhagnodedig i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg os yw'r gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl yng Nghymru;
 - caniatáu i wasanaethau gael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a chan y cyhoedd;
 - ymgynghori â hwy, fel y disgrifiwyd uchod, wrth i ni ddatblygu polisiâu a mentrau i sicrhau bod y goblygiadau o ran darparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru'n cael eu hystyried yn drwyadl.

6. Byddwn yn ymgynghori â'r Coleg Barnwrol, Barnwyr Llywyddol Cymru, Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu a Chyfarwyddwr Cyflawni GLITEM dros Gymru i benderfynu pa gyfarwyddyd neu hyfforddiant y bydd eu hangen yng nghyswllt defnyddio'r Gymraeg ar gyfer y farnwriaeth sy'n gwrandio achosion yng Nghymru.

7. Byddwn hefyd yn cysylltu â Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar y Gymraeg, fel y bo'n briodol. Ar sail ei gylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor Sefydlog yn helpu'r Adran a'i hasiantaethau cysylltiedig i ddatblygu a darparu gwasanaethau Cymraeg yn y sector cyfiawnder yng Nghymru.

3. Recriwtio

Penodi Staff

1. Gan fod pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i leoli yn Llundain yn bennaf, rydym yn recriwtio ar lefel genedlaethol ac yn hysbysebu yn Saesneg. Yn gyffredinol, nid yw pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i siaradwyr Cymraeg ac felly nid yw recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn ffactor hanfodol ar gyfer cyflawni'r cynllun hwn, na hyfforddi'r staff hynny i ddefnyddio'r Gymraeg.
2. Pan fyddwn yn recriwtio i swyddi gwag yng Nghymru, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog: bydd hysbysiadau yn Gymraeg a byddant yn cael eu gosod mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn yr un fformat ac o'r un maint ac ansawdd ac amlygrwydd – pa un a fyddant ar ffurf un fersiwn ddwyieithog neu hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
3. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ymrwymo i symud i'r llwyfan recriwtio Civil Service Recruitment (CSR) ar y cyfle cyntaf ar ôl cyflwyno achos busnes cadarn. Un rhan o'r achos busnes hwn fydd yr effaith o ran cyflawni'r ymrwymadau ynghylch y Gymraeg.

Penodiadau Barnwrol

4. Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol ac yn eu hargymhell i un ai'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr neu Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd i'w penodi fel y bo'n briodol (Deddf Trosedd a'r Llysoedd 2013). Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor sy'n gwneud y penodiadau neu'n argymhell y penodiadau i'r Frenhines, yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.
5. Mae Barnwyr Llywyddol Cymru, Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu a Chyfarwyddwr Cyflawni GLITEM dros Gymru yn asesu nifer y barnwyr a'r angen am recriwtio barnwyr yng Nghymru'n rheolaidd. Wrth wneud hynny, byddant hefyd yn ystyried a fydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus fod â sgiliau iaith Gymraeg hanfodol² (un ai i gynnal nifer presennol y barnwyr Cymraeg eu hiaith neu i gwrdd â galw cynyddol).
6. Ar ôl cytuno i gynnwys ymarferiad yn y rhaglen ymarferiadau dethol, bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn datblygu cynllun marchnata ar gyfer pob ymarferiad. Os bydd y comisiwn yn penderfynu hysbysebu mewn cyhoeddiad ar gyfer Cymru (h.y. cyhoeddiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru/darllenwyr yng Nghymru), bydd yn ceisio gwneud hynny yn Gymraeg a Saesneg. Fel arfer, bydd y comisiwn yn ystyried gosod hysbyseb ddwyieithog. Fodd bynnag, gan fod nodweddion a chynnwys pob ymgyrch recriwtio'n wahanol, mae'n bosibl y bydd

² Ystyr sgiliau iaith Gymraeg yw'r gallu i sgwrsio ac ysgrifennu'n rhugl ac yn rhwydd yn Gymraeg.

dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu defnyddio weithiau. Pe byddai'r comisiwn yn gosod hysbyseb mewn cyhoeddiad ar gyfer Lloegr, byddai'n hysbysebu yn Saesneg yn unig ond byddai'n cyfeirio'n glir at unrhyw ofyniad o ran y Gymraeg.

7. Yn ogystal â hyn, oherwydd y cyfyngiadau presennol ar hysbysebu a gyflwynwyd gan Lywodraeth EM, mae'n debygol mai dim ond i hysbysebu rôl arbenigol mewn tribiwnlys nad yw'n ymwneud â'r gyfraith y byddid yn gwneud cais am esemptiad ffurfiol o gyfarwyddyd y Llywodraeth i rewi pob gwariant ar hysbysebu, marchnata a chyfathrebu gan lywodraeth ac, oni bai ei bod yn hanfodol gwneud fel arall, byddai'r hysbysebion hynny'n cael eu gosod ar-lein yn unol â pholisi 'digidol yn bennaf' y llywodraeth.
8. Gan fod rhaid i bob barnwr siarad Saesneg, ni fydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn darparu deunydd ar gyfer dethol ymgeiswyr yn Gymraeg fel arfer ond fe wnaiff hynny os gwneir cais. Mae eglurhad o hyn yn yr adran Cymraeg ar wefan y comisiwn, sef y ffynhonnell wybodaeth am ymarferiadau dethol penodol.
9. Y penodiadau a wneir amlaf yng Nghymru yw penodiadau ynadon. Mae Pwyllgorau Cyngori Lleol yn gyfrifol am recriwtio a dethol ynadon. O ganlyniad i newidiadau diweddar yn y ffordd o recriwtio Ynadon yng Nghymru, o hyn ymlaen bydd Pwyllgorau Cyngori yng Nghymru yn gallu nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn 'hanfodol' ar gyfer swyddi gwag penodol.
10. Bydd swyddi gwag lle y mae'r "Gymraeg yn hanfodol" yn codi pan fydd angen cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar y fainc er mwyn sicrhau bod y llysoedd yn gallu cyflawni'r rhwymedigaeth statudol sydd arnynt o dan adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Pwyllgorau Cyngori Lleol yng Nghymru yn gallu arfer disgresiwn i hysbysebu swyddi gwag ar y fainc gan nodi bod y "Gymraeg yn hanfodol" – h.y. pan fo angen clir i ymgeiswyr allu deall a sgwrsio'n ddigon rhugl yn Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r angen i sicrhau bod niferoedd digonol o ynadon dwyieithog mewn llysoedd yng Nghymru sy'n gallu cynnal gwrandawiadau llys³ a busnes arall sy'n ymwneud â'r llys drwy gyfrwng y Gymraeg.
11. Pan fydd ymgeiswyr yn ymgeisio i'w hystyried ar gyfer swyddi gwag ar y fainc lle y mae'r Gymraeg yn hanfodol, gofynnir iddynt ddarparu canolwr sy'n gallu gwneud sylw am eu gallu i ddeall a sgwrsio'n rhugl yn Gymraeg.
12. Mae ymarferiadau penodi eraill ar gyfer y farnwriaeth yn cael eu gweinyddu o fewn yr Adran. Pan fydd swyddi gwag yn codi yng Nghymru, fe'u hysbysebir mewn cyhoeddiad ar gyfer Cymru (h.y. cyhoeddiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar Gymru/darllenwyr yng Nghymru). Byddwn hefyd yn ystyried a fydd y gallu i gynnal

³ Nid yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 na chynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn rhoi'r hawl i unigolion (diffynyddion, rheithwyr neu ymgyfreithwyr) gael treial neu wrandawriad cyfan wedi'i gynnal yn Gymraeg. Mae GLITEM (Uned yr Iaith Gymraeg) wedi rhoi canllawiau sy'n egluro bod y darpariaethau yn adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg yn gwbl glir o ran rhoi'r hawl i unrhyw barti, tyst neu berson arall i siarad Cymraeg, ond nad yw'n rhoi'r hawl i holl broses y treial neu wrandawriad gael ei chynnal yn Gymraeg. Mewn achosion unigol, bydd GLITEM yn cael gwybod ymlaen llaw beth fydd yr anghenion o ran y Gymraeg ar gyfer unrhyw elfen mewn treial neu wrandawriad (tystion etc.) ac yn gwneud trefniadau'n unol â hynny.

achos drwy gyfrwng y Gymraeg yn briodoledd dymunol mewn ymgeiswyr. Bydd natur a lleoliad y swydd benodol, a'r gallu presennol i gynnal gwrandawiadau yn Gymraeg, yn ffactorau perthnasol. Darperir deunydd ar gyfer ymgeisio yn Gymraeg os gwneir cais.

Penodiadau cyhoeddus eraill

13. Os bydd penodiad sydd heb fod yn un barnwrol yn codi yng Nghymru yn y dyfodol, bydd y weithdrefn benodol a gaiff ei mabwysiadu'n dibynnu ar natur y swydd. Byddwn yn ystyried, ar sail natur a lleoliad unrhyw swydd benodol, a fyddwn yn chwilio'n benodol am ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg.

4. Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd

Cyffredinol

1. Lle y mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, bydd yn sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau yr un fath ag ansawdd y gwasanaethau hynny pan gânt eu darparu yn Saesneg.

Gohebu

2. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonir atom yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod â gohebiaeth arall. Rydym yn rhag-weld y byddwn yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, a byddwn yn rhoi cyfarwyddyd o'r newydd i staff ynghylch defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu cyn rhoi'r cynllun hwn ar waith.

Galwadau Ffôn

3. Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i leoli yng nghanol Llundain yn bennaf a phrin iawn yw ei gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd. Felly nid yw'n gymesur nac yn ymarferol i ni gynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg. Er hynny, rydym yn ymchwilio ar hyn o bryd ynghylch sut y gallem wella'r gwasanaeth hwn drwy ddarparu bod yr ymateb cyntaf i alwad gan siaradwr Cymraeg yn cael ei roi yn Gymraeg. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnig dewis i'r rheini sy'n ein galw ac sydd am siarad yn Gymraeg i ysgrifennu atom yn Gymraeg neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

Digwyddiadau

4. Os bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnal digwyddiadau yng Nghymru, fe hysbysebir y rhain yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ei gwneud yn glir y bydd croeso i gyfranogwyr gyfrannu yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn hwyluso trefniadau byddwn:
 - yn ei gwneud yn glir wrth roi hysbysiad am y digwyddiad y byddwn yn parchu hawl personau sy'n bresennol i siarad yn Gymraeg neu Saesneg;
 - yn gwahodd unrhyw un sy'n bwriadu bod yn bresennol i ddweud o leiaf bythefnos ymlaen llaw a yw'n bwriadu siarad yn Gymraeg;
 - yn rhoi canllawiau i staff i'w helpu i benderfynu a fydd angen cyfleusterau cyfieithu⁴ drwy ystyried y pwnc sydd i'w drafod, lleoliad y cyfarfod a phwy sy'n debygol o fod yn bresennol, a hefyd a nodwyd ymlaen llaw y bydd cyfranogwyr yn defnyddio'r ddwy iaith.

⁴ Mae cyfleusterau cyfieithu yn cynnwys cyfieithu deunyddiau'r digwyddiad a/neu gyfieithydd.

Hunaniaeth Gorfforaethol

5. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dangos hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog ar holl ohebiaeth, dogfennau a chyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a ddefnyddir yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y ffurf Gymraeg ar enw'r Adran (*Y Weinyddiaeth Cyfiawnder*). Hefyd trefnir i'r dogfennau hyn fod ar gael ar dudalennau corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK (<https://www.gov.uk/moj>)
6. Bydd pob gohebiaeth adrannol at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ar bapur pennawd dwyieithog, pa un a ysgrifennir y llythyr yn Gymraeg neu beidio.

Cyhoeddiadau a Ffurflenni

7. Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol am nifer o gyhoeddiadau, gan gynnwys adroddiadau, papurau polisi, canllawiau a thafllenni sy'n ymwneud â'n cyfrifoldebau ledled Cymru a Lloegr. Bydd cyhoeddiadau a ffurflenni ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru un ai ar dudalennau corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK neu drwy eu dosbarthu ar ein rhan gan ein canghennau cyflawni.
8. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn trefnu i gyhoeddiadau fod ar gael yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog os ydynt yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru neu os ydynt yn berthnasol i Gymru gyfan oni bai eu bod yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:
 - a) os yw'r galw'n fach iawn h.y. os disgwylir i'r cylchrediad fod yn gyfyngedig iawn; neu os yw dogfennau wedi'u hanelu at grŵp penodol a bod disgwyl i'r galw amdanynt yn Gymraeg fod yn fach (llai na 50 o gopïau, fel arfer);
 - b) dogfennau technegol lle y mae'r cylchrediad wedi'i gyfyngu i'r gymuned dechnegol;
 - c) dogfennau mawr iawn (mwy na 100 o dudalennau, fel arfer) sydd, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yn annhebygol o ennyn diddordeb ac ymateb eang.
9. Os nad yw dogfen wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg am un neu ragor o'r rhesymau uchod, byddwn yn ystyried cyfieithu'r ddogfen i'r Gymraeg os gwneir cais am hynny. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar y galw ac ar ailystyried y ffactorau uchod. Mae'n bosibl y bydd achosion prin o hyd lle na fydd yn ddichonol cyhoeddi dogfen yn Gymraeg, er enghraifft, os yw'r ddogfen yn hir iawn. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyfieithu dogfen grynodedb ar gais ac yn trefnu iddi fod ar gael i'r cyhoedd.
10. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod fformat dwyieithog yn cael ystyried gyntaf ar gyfer pob adroddiad a gyhoeddir yn Gymraeg ac eithrio lle y byddai hynny'n peri i'r ddogfen fod yn anhylaw.
11. Gan fod cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys amrywiaeth fawr o feysydd pwnc a gweithgareddau ac am fod eu cynulleidfaoedd arfaethedig yn amrywiol iawn, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i ddefnyddio systemau sgorio Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer cyhoeddiadau a ffurflenni i'w helpu i benderfynu a fydd yn trefnu i'r rhain fod ar gael yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog. Lle y mae'r system sgorio'n

helpu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i benderfynu bod cyfiawnhad dros gyhoeddi dogfen yn Gymraeg, byddwn yn ymgymryd i ddarparu fersiwn PDF electronig ohoni a fydd ar gael i'w lawrlwytho. Mae'r systemau sgorio wedi'u cynnwys yn Atodiad B ac Atodiad C i'r cynllun hwn.

12. Lle y cyhoeddir fersiwn Gymraeg o ddogfen neu grynodedb ohoni, byddwn yn gwneud hynny yr un pryd â'r fersiwn Saesneg os yw'r terfyn amser yn caniatáu.
13. Lle bo angen, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynhyrchu ffurflenni i'w defnyddio yng Nghymru yn Gymraeg neu mewn fformat dwyieithog yn unol â system sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ffurflenni. Bydd yr opsiwn o gyfieithu ar gais ar gael o hyd. Os bydd y system sgorio'n dangos bod cyfiawnhad dros gynhyrchu ffurflen Gymraeg, byddwn yn ymgymryd i ddarparu fersiwn PDF electronig ohoni a fydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalennau perthnasol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK.

Hysbysiadau i'r Wasg

14. Bydd datganiadau i'r wasg ar gyfer y wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru'n cael eu rhoi yn Gymraeg os yw'r terfyn amser yn caniatáu. Trefnir i'r datganiadau hyn i'r wasg fod ar gael hefyd ar dudalennau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK.

Ymgyrchoedd Cyhoedduswydd a Hysbysebu

15. Bydd yr holl ddeunydd cyhoedduswydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, arddangos a hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn cyfathrebu â'r cyhoedd) yn cael ei gynhyrchu'n gwbl ddwyieithog, neu'n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd a byddant ar gael yr un mor rhwydd.
16. Pan fyddwn yn cyhoeddi hysbyseb nad yw ar gyfer recriwtio, byddwn yn cyhoeddi fersiwn ddwyieithog yn y wasg Gymraeg os yw'n ymwneud â:
 - materion sy'n bwysig iawn i'r cyfan o Brydain Fawr;
 - materion o ddiddordeb neilltuol yng Nghymru.

Hysbysiadau Swyddogol a Hysbysiadau Cyhoeddus

17. Bydd yr holl hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus a gaiff eu cyhoeddi neu eu gosod mewn manau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu'n fersiynau Cymraeg a Saesneg.

Gwefan

18. Bydd tudalen y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK yn cynnwys eitemau yn Gymraeg lle y mae'n ofynnol i'r eitemau hynny fod yn Gymraeg yn unol ag adrannau eraill o'r cynllun hwn a lle y maent yn bodloni meini prawf y wefan ar gyfer cyhoeddi ar sail perthnasedd/pwysigrwydd ac angen/galw gan y defnyddiwr.
19. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau presennol, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried canllawiau

20. Pryd bynnag y bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, lle bo'n briodol bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu gosod cyn gynted ag y bo modd.
21. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys Cymraeg ar y we yn ganllawiau a ddarperir drwy wefan www.gov.uk/moj ar ran ein hasiantaethau a Chyrff Hyd Braich. Yn ystod 2014 mae gwefan www.justice.gov.uk i'w chau a'r cynnwys priodol i'w symud i wefan GOV.UK. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddarperir canllawiau yn Gymraeg neu beidio ar wefan GOV.UK yn dibynnu ar dystiolaeth sy'n dangos bod angen ar ddefnyddwyr i'r wybodaeth honno fod ar gael yn Gymraeg. Mae canllawiau ar hyn ar gael yn <https://insidegovuk.blog.gov.uk/use-of-welsh-language-on-gov-uk>

Trefniadau gweinyddol

22. Mae pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn rhag-weld y bydd yn defnyddio Uned yr Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yng Nghymru. Byddwn yn datblygu safonau i sicrhau, os bydd angen i ni gael gwasanaethau allanol, y bydd y cyfieithwyr a ddefnyddiwn yn meddu ar gymwysterau addas ac yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.⁵

Gwasanaethau wedi'u darparu ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan bartion eraill

23. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod trefniadau a chontractau â thrydydd partion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun hwn a'u bod yn cael eu gweithredu'n unol ag ef.
24. [Mae canllawiau ar y gofynion ar gyfer tendro a thelerau ac amodau safonol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cael eu diwygio i ddangos yn fwy clir y gofyniad bod gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder, lle bo'n berthnasol, yn adlewyrchu'r gwasanaethau sydd i'w darparu'n unol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Felly, bydd y gofynion penodol hynny o ran y Gymraeg sy'n berthnasol i'r gwasanaethau yn cael eu pennu yn y contract.](#)
25. [Mae telerau ac amodau safonol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnwys gofynion sydd i'w gosod ar y contractwr i adrodd ar ei gydymffurfiaeth ag unrhyw rwymedigaethau gwasanaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg.](#)

⁵ Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder / GLITEM wedi gwneud contract â Capita ar gyfer darparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag, nid yw'r contract â Capita yn cynnwys darparu cyfieithwyr / cyfieithiadau Cymraeg ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru gan fod hyn yn gyfrifoldeb i Uned yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, y tu allan i Gymru fe all Capita ddarparu cyfieithwyr a chyfieithiadau Cymraeg.

Dyrannu Grantiau

26. Mewn ceisiadau gan unrhyw sefydliad am nawdd neu gymorth grant ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl yng Nghymru, bydd disgwyl i'r sefydliad nodi, lle bo'n briodol, sut y mae'n bwriadu darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Bydd hyn yn cael ei gynnwys wedyn yn un o'r amodau ar gyfer ariannu.

27. Os bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau sydd i'w cyflawni yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau, lle bo'n briodol, ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn rhoi sylw i ddogfen gynghori Comisiynydd y Gymraeg *Grantiau, benthyciadau a nawdd: ystyried y Gymraeg*. Mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i ddatblygu Fframwaith Grantiau, a bydd y darpariaethau priodol yn y cynllun hwn a dogfen gynghori'r Comisiynydd yn cael eu hystyried wrth lunio'r Fframwaith.

5. Gweithredu, Monitro ac Adrodd

Gweithredu'r cynllun

1. Ar ôl cwblhau'r cynllun, caiff ei gyhoeddi ar dudalennau perthnasol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar wefan GOV.UK ar ffurf cyhoeddiad corfforaethol, a rhoddir hysbysiad i'r wasg i hybu ymwybyddiaeth o'r cynllun diwygiedig. Hefyd bydd copi o'r cynllun hwn ar gael i'r holl staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar fewnwyd y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Wrth lansio'r cynllun, byddwn hefyd yn rhoi canllawiau i staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch:
 - delio â gohebiaeth yn Gymraeg;
 - defnyddio Uned yr Iaith Gymraeg yng Ngwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a'r dewisiadau eraill;
 - pa bryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoedduswydd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg;
 - goblygiadau'r cynllun hwn i'r rheini sy'n caffael gwasanaethau gan drydydd partïon.

Monitro'r cynllun

2. Yn gyffredinol, bydd y cynllun hwn yn rhedeg o'r dyddiad gweithredu. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â llunio polisi a gwasanaethau corfforaethol eraill yn ymwybodol o ofynion y cynllun hwn ac yn eu hystyried wrth gyflawni eu gwaith. Gwneir hyn:
 - drwy fonitro gweithrediad y cynllun hwn;
 - drwy gynnwys gwiriadau mewn prosesau polisi a chaffael, i sicrhau bod yr agwedd Gymraeg yn cael ei hystyried ar yr adeg briodol mewn ffordd gymesur: gellir ymgynghori â Chyfarwyddwr Cyflawni GLITEM dros Gymru, sef y deiliad allweddol ar gyfer materion Cymraeg, er mwyn cael cyfarwyddyd fel y bo'n briodol;
 - drwy ymgynghori'n rheolaidd â'r Coleg Barnwrol i benderfynu pa ganllawiau ar hyfforddi a all fod yn angenrheidiol ar gyfer y farnwriaeth sy'n gwrando achosion yng Nghymru mewn cysylltiad â defnyddio'r Gymraeg;
3. Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, byddwn yn monitro'r meysydd sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu D, yn benodol:
 - **Blaen-gynllunio** - bob blwyddyn byddwn yn atgoffa pob maes busnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder am y cynllun iaith Gymraeg a'r gofyniad i ystyried cymhwyso'r cynllun at bolisi, caffael a meysydd corfforaethol eraill. Gofynnir i'r meysydd corfforaethol adrodd ar waith sy'n codi o ganlyniad i ofynion y cynllun hwn, gan gynnwys beth yr oeddent wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwaith sy'n parhau, a gwaith newydd y disgwylir iddo godi y flwyddyn hon.

- **Ein hwyneb cyhoeddus:** bydd uned y wasg a chyhoeddiadau yn yr Adran yn monitro, yn cofnodi ac yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr hysbysiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, ffurflenni dwyieithog y mae'n eu cynhyrchu a/neu eu dosbarthu; bydd yn ofynnol bod pob uned fusnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn monitro, yn cofnodi ac yn adrodd yn gyson ar y dogfennau neu hysbysiadau dwyieithog y mae'n eu cyhoeddi ac sydd heb eu cynhyrchu a/neu eu dosbarthu gan uned y wasg a chyhoeddiadau.
- **Asiantau a contractwyr:** bydd yn ofynnol bod pob uned fusnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n defnyddio asiantau neu gontractwyr i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth yr asiantau neu gontractwyr â thelerau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn eu cytundebau neu drefniadau.
- **Cwynion:** bydd cwynion sy'n ymwneud â'n Gwasanaeth Cymraeg yn cael eu trafod yn unol â'n gweithdrefn gwynion arferol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <http://www.gov.uk/moj/complaints/moj>.

Adrodd ar y cynllun

4. Bob blwyddyn bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu adroddiad blynyddol a fydd yn asesu perfformiad y cynllun i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Ar ôl tair blynedd, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adolygu gweithrediad y cynllun ac yn trafod cynnydd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol â Chomisiynydd y Gymraeg.

Cyhoeddi gwybodaeth

5. Bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi crynodeb o'n perfformiad o dan y cynllun hwn yn yr Adroddiad Adrannol blynyddol (neu mewn dogfen gorfforaethol debyg a gyhoeddir), gan gynnwys eglurhad a/neu y camau y bwriadwn eu cymryd os na fyddwn wedi gwneud cynnydd priodol ar gyflawni'r cynllun gweithredu (sydd yn Atodiad D i'r cynllun).

Atodiad A -Y sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n dod o dan gynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Comisiwn y Gyfraith - corff cyhoeddus anadrannol cyngorol. Mae'r Comisiynwyr yng Nghomisiwn y Gyfraith wedi cytuno y bydd yn mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Byrddau Monitro Annibynnol - corff cyhoeddus anadrannol cyngorol

Swyddfa'r Cyfreithiwr Swyddogol a'r Ymddiriedolwr Cyhoeddus - swyddfa statudol annibynnol

Swyddfa'r Cyfrifydd Cyffredinol / Swyddfa Cronfeydd y Llys - swyddfa statudol annibynnol

Swyddfa Ymchwilio i Ymddygiad Barnwrol - (bellach yn rhan o'r Swyddfa Farnwrol) swyddfa annibynnol arall

Yr Ombwdsmon Cyfreithiol - swyddfa statudol annibynnol

Sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a/neu sy'n gysylltiedig â hi sydd â'u cynllun neu bolisi iaith Gymraeg eu hunain:

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol sydd â'i gynllun iaith Gymraeg ei hun.

Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) - sydd wedi mabwysiadu ei gynllun iaith Gymraeg ei hun ac sy'n cynnwys:

- **Y Gwasanaeth Carchardai** - asiantaeth weithredol;
- **Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)** - fe'i sefydlwyd ar 1 Mehefin 2014 ynghyd â 21 o gwmnïau adsefydlu cymunedol sy'n rheoli troseddwyr risg isel a chanolig. Mae'r NPS yn gweithio mewn partneriaeth â'r cwmnïau adsefydlu cymunedol a, gyda'i gilydd, mae'r NPS a'r cwmnïau adsefydlu cymunedol wedi cymryd lle'r 35 ymddiriedolaeth prawf flaenorol.

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM) - asiantaeth weithredol sydd wedi mabwysiadu ei chynllun iaith Gymraeg ei hun

Prif Arolygydd Prawf EM; ac

Arolygiaeth Prawf EM - arolygiaeth annibynnol sydd â'i pholisi iaith Gymraeg ei hun

Swyddfa Cwynion Cyfreithiol - swyddfa statudol annibynnol.

Swyddfa Cymru - swyddfa sy'n ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig sydd wedi mabwysiadu ei chynllun iaith Gymraeg ei hun.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol sydd wedi mabwysiadu ei gynllun iaith Gymraeg ei hun.

Y Bwrdd Parôl - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol a fydd yn datblygu ac yn mabwysiadu ei gynllun iaith Gymraeg ei hun.

Yr Archifau Gwladol (TNA) - adran anweinidogol ac asiantaeth weithredol nad yw o fewn cwmplas Deddf yr Iaith Gymraeg ond sydd wedi mabwysiadu datganiad polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n datblygu neu'n bwriadu datblygu eu cynllun neu bolisi iaith Gymraeg eu hunain:

Arolygiaeth Carchardai EM - arolygiaeth annibynnol sy'n bwriadu ystyried datblygu ei chynllun iaith Gymraeg ei hun.

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA)⁶ - asiantaeth weithredol sy'n datblygu ei chynllun iaith Gymraeg ei hun

Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol a oedd gynt yn dilyn polisi Gwasanaethau Cymraeg GLIEM ond sy'n ystyried datblygu ei bolisi iaith Gymraeg ei hun.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus - asiantaeth weithredol sy'n datblygu ei chynllun iaith Gymraeg ei hun.

Y Cyngor Dedfrydu - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol.

Sefydliadau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun iaith Gymraeg hwn:

Asesydd ar gyfer Digolledu am Achosion o Gamweinyddu Cyfiawnder - corff annibynnol

Byrddau Monitro Annibynnol - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

⁶ Roedd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn gweithredu cynt fel y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a oedd â'i gynllun iaith Gymraeg ei hun. Drwy gytuno â Chomisiynydd y Gymraeg, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi parhau i ddefnyddio cynllun y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol nes bydd cynllun newydd yn cael ei gymeradwyo.

Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol

Comisiwn Ffiniau i'r Alban - corff cyhoeddus anadrannol sy'n cynghori Swyddfa'r Alban

Comisiwn Ffiniau Seneddol Lloegr - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol i Wasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon

Comisiwn Penodiadau Barnwrol Gogledd Iwerddon - corff cyhoeddus anadrannol gweithredol i Wasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon

Cyngor Cyfiawnder Sifil - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Cyngor Cynghorol ar Gofnodion ac Archifau Gwladol - corff cyhoeddus anadrannol sy'n cynghori'r Archifau Gwladol

Cyngor Cynghorol ar Gofnodion Cyhoeddus - corff cyhoeddus anadrannol sy'n cynghori'r Archifau Gwladol

Cyngor Cynghorol ar Lawysgrifau Hanesyddol - corff cyhoeddus anadrannol sy'n cynghori'r Archifau Gwladol

Gwasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon (NiCtS) - gwasanaeth sifil ar wahân, nad yw'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ac nad yw felly o fewn cwrpas cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Ombwdsmon y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf - ombwdsmon

Ombwdsmon Ymddygiad a Phenodiadau Barnwrol - swyddfa statudol annibynnol

Panel Cynghorol ar Wybodaeth y Sector Cyhoeddus - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Pwyllgorau Cynghorol ar Ynadon Heddwch yng Nghymru a Lloegr (yn cynnwys y Pwyllgorau Cynghorol ar Ynadon Heddwch yn Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi) - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Pwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor - rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n adrodd drwy Weinidog i Arglwydd Lywydd y Cyngor

Pwyllgor Cynghorol ar Reolau Tribiwnlysoedd - corff cyhoeddus anadrannol

Pwyllgor Rheolau Ansoffedd - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu - corff cyhoeddus anadrannol cynghorol

Swyddfa'r Alban - swyddfa sy'n ymwneud â gweinyddiaethau datganoledig, nad yw'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac nad yw felly o fewn cwrpas cynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Swyddfa'r Barnwr Adfocad Cyffredinol - corff annibynnol

Swyddfa'r Cyfrin Gyngor - rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n adrodd drwy Weinidog i Arglwydd Lywydd y Cyngor

Swyddfa'r Prif Grwner - corff annibynnol

Y Swyddfa Farnwrol - cyfarwyddiaeth annibynnol sy'n cynnwys: y Swyddfa Cyfathrebiadau Barnwrol; Cyngor Cyfiawnder Teulu; Cyngor Cyfiawnder Sifil; y Coleg Barnwrol.

Atodiad B - System sgorio Bwrdd yr iaith Gymraeg⁷ ar gyfer ffurflenni

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno dull y gellir ei fabwysiadu gan gyrrff cyhoeddus i'w helpu i benderfynu a ddylid paratoi fersiwn ddwyieithog neu fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni a gyhoeddir ganddynt neu beidio.

Weithiau gall y Weinyddiaeth Cyfiawnder gydweithio ag un o'i phrif ganghennau cyflawni, neu Adran Lywodraeth arall, i gydgyhyrchu ffurflenni neu gyhoeddiadau. Os bydd cynllun iaith Gymraeg gan gangen cyflawni neu Adran Lywodraeth arall sydd ag ymrwymiad cryfach, yr ymrwymiad cryfach yw'r un a gyflawnir. Er enghraifft, os yw'n gyhoeddiad ar y cyd, neu'n gyhoeddiad ar ran GLITEM, ac os yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ar sail y system sgorio nad oes angen paratoi fersiwn ddwyieithog o ddogfen a gyhoeddir ar y cyd neu un a baratwir ar ran GLITEM ond bod y telerau yng nghynllun GLITEM yn galw am ei pharatoi, yna byddid yn cyflawni ymrwymiad cryfach GLITEM.

Gall unrhyw gorff cyhoeddus ddewis mabwysiadu neu beidio â mabwysiadu'r dull hwn – ac addasu'r ddogfen a ganlyn er mwyn adlewyrchu natur ei waith.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac yn ddull na ellir ei addasu. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i gefnogi'r dasg o benderfynu ynghylch pob ffurflen. Fodd bynnag, os ydych chi'n penderfynu peidio â gweithredu'n unol â'r system sgorio, dylech sicrhau eich bod yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw.

Dyma'r system y gellir ei mabwysiadu:

1. Nifer y copïau i'w hargraffu mewn blwyddyn:

1 – 500:	sgôr = 1
500 – 5,000:	sgôr = 2
dros 5,000:	sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged:

- y cyhoedd:	sgôr = 15
- sector penodol o'r cyhoedd	sgôr = 10
- unigolion yn cynrychioli meysydd penodol	sgôr = 0

3. A fydd y ffurflen yn ymwneud â maes pwnc neu ran o Gymru o ddi-ddordeb penodol yng nghyswllt y Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, pobl hŷn, amaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau - neu a fydd wedi'i hanelu'n llwyr at ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg.

- bydd:	sgôr = 10
- na fydd:	sgôr = 0

⁷ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012 dan delerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a throsglwyddwyd llawer o ddyletswyddau'r Bwrdd i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

4. Am ba hyd y defnyddir y ffurflen? (Ailargraffu'r ffurflen; ni ddylid ystyried mân newidiadau fel newid y flwyddyn ar frig y ffurflen, neu newid rhan o'r ffurflen i adlewyrchu rheolau newydd, yn ddiwedd oes yr hen fersiwn).

0 – 6 mis:	sgôr = 1
6 mis – 2 flynedd:	sgôr = 2
dros 2 flynedd:	sgôr = 4

5. Nifer y geiriau yn y ffurflen:

0 – 500:	sgôr = 4
500 – 1000:	sgôr = 3
1000 – 5000:	sgôr = 2
dros 5000:	sgôr = 1

6. Nifer y tudalennau yn y ffurflen:

1 – 5:	sgôr = 4
5 – 10:	sgôr = 3
10 – 20:	sgôr = 2
dros 20:	sgôr = 1

Dylid adio sgôr pob cwestiwn – a'i gymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r cyhoeddiad:

0 – 14:	does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
15 – 18	mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
dros 18 :	mae angen paratoi fersiwn Gymraeg

Penderfyniad ynghylch fersiwn **electronig** o'r cyhoeddiad (i'w chynnwys ar wefan y corff ayb). **Anwybyddwch** gwestiynau 1 – 6 wrth gyfrifo'r sgôr yma:

0 – 11:	does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
12 – 14:	mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
dros 14:	mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Atodiad C - System sgorio Bwrdd yr Iaith Gymraeg⁸ ar gyfer cyhoeddiadau

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno dull y gellir ei fabwysiadu gan gyrrff cyhoeddus i'w helpu i benderfynu cyhoeddi neu beidio â chyhoeddi deunydd yn y Gymraeg, boed hynny ar ffurf dogfennau dwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Weithiau gall y Weinyddiaeth Cyfiawnder gydweithio ag un o'i phrif ganghennau cyflawni, neu Adran Lywodraeth arall, i gydgyhyrchu ffurflenni neu gyhoeddiadau. Os bydd cynllun iaith Gymraeg gan gangen cyflawni neu Adran Lywodraeth arall sydd ag ymrwymiad cryfach, yr ymrwymiad cryfach yw'r un a gyflawnir. Er enghraifft, os yw'n gyhoeddiad ar y cyd, neu'n gyhoeddiad ar ran GLITEM, ac os yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael ar sail y system sgorio nad oes angen paratoi fersiwn ddwyieithog o ddogfen a gyhoeddir ar y cyd neu un a baratwir ar ran GLITEM ond bod y telerau yng nghynllun GLITEM yn galw am ei pharatoi, yna byddid yn cyflawni ymrwymiad cryfach GLITEM.

Gall gyrrff cyhoeddus addasu'r ddogfen isod i adlewyrchu natur eu gwaith.

Ni fwriedir i'r system sgorio fod yn gwbl ragnodol nac yn anhyblyg. I'r gwrthwyneb, dylid ei defnyddio i *helpu* gyda'r gwaith o benderfynu sut i weithredu ym mhob achos. Er hynny, os penderfynir peidio â gweithredu'n unol â'r system sgorio, rhaid i sefydliadau allu esbonio pam.

Dylid cadw'r ddogfen sgorio mewn ffeil ar gyfer pob cyhoeddiad, fel cofnod o'r broses sgorio.

Dyma'r system sgorio:

1. Nifer y copïau i'w hargraffu bob blwyddyn *ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru*:

1 – 500:	sgôr = 1
500 – 5,000:	sgôr = 2
dros 5,000:	sgôr = 4

2. Y gynulleidfa darged (uniongyrchol neu anuniongyrchol⁹) neu statws¹⁰:

y cyhoedd (neu statws uchel):	sgôr = 15
- sector penodol o'r cyhoedd (neu statws canolog):	sgôr = 10
- unigolion yn cynrychioli meysydd penodol (neu statws isel):	sgôr = 0

⁸ Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012 dan delerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a throsglwyddwyd llawer o ddyletswyddau'r Bwrdd i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

⁹ Er enghraifft, gallai dogfen fod wedi'i chyhoeddi gennych chi i'w rhoi i gorff cyhoeddus arall, ond gyda chynnwys y bwriedir iddynt ei drosglwyddo i'r cyhoedd.

¹⁰ Er enghraifft, a fydd yn ddogfen allweddol, ac yn ganolog i'ch perthynas â'ch rhanddeiliaid yng Nghymru? Neu a fydd yn denu sylw helaeth gan y wasg yng Nghymru? Dylid dyfarnu'r pwyntiau **uchaf** posibl. Er enghraifft, dylai dogfen sydd wedi'i hanelu at *unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol*, ond gyda *statws uchel*, dderbyn 15 pwynt, nid 0 pwynt.

3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i faes pwnc neu ran o Gymru o ddiddordeb penodol yng nghyswllt y Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn ymwneud â phobl ifanc, pobl hŷn, amaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau – neu a fydd wedi'i anelu'n llwyr at ardaloedd sydd â chanran uchel, neu nifer fawr, o siaradwyr Cymraeg.
- bydd: sgôr = 10
 - na fydd: sgôr = 0
4. Am ba hyd y defnyddir y cyhoeddiad? (Ailargraffu'r cyhoeddiad; ni ddylid ystyried mân newidiadau fel newid y flwyddyn ar frig y cyhoeddiad, neu newid rhan o'r cyhoeddiad i adlewyrchu rheolau newydd, yn ddiwedd oes yr hen fersiwn). **Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori**, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn ei le (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):
- 0 – 6 mis: sgôr = 1
 - 6 mis – 2 flynedd: sgôr = 2
 - dros 2 flynedd: sgôr = 4
5. Nifer y geiriau yn y cyhoeddiad:
- 0 – 1000: sgôr = 4
 - 1000 – 5000: sgôr = 2
 - dros 5000: sgôr = 1
6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau mewn *fersiwn un iaith* o'r cyhoeddiad:
- 1 – 10: sgôr = 4
 - 10 – 20: sgôr = 2
 - dros 20: sgôr = 1
7. (Cwestiwn ar gyfer **dogfennau ymgynghori'n unig**). Delio â phwnc sy'n:
- Arbenigol / technegol iawn: sgôr 1
 - Eithaf dyrys, ond o ddiddordeb i lawer: sgôr 2
 - Hawdd ei ddeall / o ddiddordeb cyffredinol: sgôr 4

Dylid adio'r sgoriau – a'u cymharu â'r canlynol:

Penderfyniad ynghylch fersiwn **bapur** o'r cyhoeddiad:

- 0 – 14 : does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
- 15 – 18: mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 18: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg

Penderfyniad ynghylch fersiwn **electronig** o'r cyhoeddiad (i'w chynnwys ar wefan y corff ayb). **Anwybyddwch** gwestiynau 1 – 6 wrth gyfrifo'r sgôr yma:

- 0 – 11: does dim angen paratoi fersiwn Gymraeg
- 12 – 14: mae'r sgôr yma'n awgrymu y dylid paratoi fersiwn Gymraeg (ond os ddim, dylid paratoi crynodeb Cymraeg yn lle hynny)
- dros 14: mae angen paratoi fersiwn Gymraeg.

Penderfyniad ynghylch argraffu dogfen **ddwyieithog**, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân

Mae Bwrdd yr iaith Gymraeg yn argymhell y dylid cychwyn â rhagdybiaeth o blaid dogfennau dwyieithog, yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae darparu deunydd dwyieithog yn haws ei weinyddu (o ran rheoli stoc a dosbarthu) na darparu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Perthyn iddo hefyd y fantais o fodloni anghenion teuluoedd cymysg eu hiaith, cynulleidfaoedd cymysg eraill a dysgwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod dwy fersiwn pob dogfen yr un mor hawdd cael gafael arnynt ym mhob lleoliad - gan osgoi'r angen i siaradwyr Cymraeg ddewis rhwng gorfod defnyddio fersiwn Saesneg, neu ofyn am y fersiwn Gymraeg a wynebu oedi yn sgil hynny.

Mae hyn hefyd yn wir pan fydd dogfen yn cael ei chyhoeddi gan sefydliad sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru, ar gyfer ei dosbarthu yng Nghymru a Lloegr. Unwaith yn rhagor, mae'r Bwrdd yn argymhell y dylid cyhoeddi fersiwn ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru (yn hytrach nag argraffu cyflenwad ar wahân o'r ddogfen yn Gymraeg).

Fodd bynnag, gellid penderfynu cyhoeddi dogfen fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, os yw cost ac ymarferoldeb yn golygu ei bod hi'n amhosibl argraffu fersiynau ar wahân. Gallai hyn adlewyrchu nifer y tudalennau yn y ddogfen (pe bai paratoi fersiwn ddwyieithog yn ei gwneud yn rhy swmpus ac anodd ei thrin).

Gyda dogfennau a gyhoeddir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, sy'n cael eu dosbarthu 'yn ôl y galw' (fel ymateb i ymgyrch hysbysebu, er enghraifft) a lle rhagwelir defnydd bychan o'r ddogfen, gall fod yn bosibl cyfiawnhau cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg ar wefan sefydliad yn unig. Mewn achosion o'r fath, dylai'r sefydliad fod yn barod i drefnu bod copi caled o'r ddogfen yn cael ei argraffu pe bai aelod o'r cyhoedd yn gofyn am hynny. Gellir gwneud hyn yn fewnol, neu ei drefnu drwy argraffwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn argraffu nifer fechan o gopiâu.

Nid yw'r cyngor hwn ynghylch cyhoeddi dogfen yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, yn berthnasol i ddogfennau a gyhoeddir ar wefan sefydliad. Yn ôl ei union natur, bydd dogfen Gymraeg electronig yr un mor hawdd ei chyrraedd â'r fersiwn Saesneg gyfatebol, boed hi wedi'i chyhoeddi fel dogfen PDF ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Heblaw'r uchod, mae cyhoeddiad o'r enw *Canllaw i Ddylunio Dwyieithog* ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Atodiad D - Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2014

Cynllun gweithredu ar gyfer y cynllun iaith Gymraeg (mae'r rhifau adran yn y tabl isod yn dilyn yr adrannau yn y Cynllun):

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
1. Cyflwyniad	Dim camau gweithredu			
2. Datblygu a gweithredu polisi	<p>a) Adolygu'r cyfarwyddyd a roddwyd i staff pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth ar y Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, ei fod yn cwrdd â'u hanghenion a'i fod wedi'i gydgyssylltu â chyfarwyddiadau eraill (e.e. ar lunio polisi neu gaffael).</p> <p>b) Cydweithio â thimau polisi i gynnwys gwiriadau llai manwl mewn prosesau datblygu polisi i sicrhau bod yr agwedd Gymraeg yn cael ei hystyried ar yr adeg briodol ac mewn ffordd gymesur.</p> <p>c) Cydweithio â meysydd busnes i ystyried sut y bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn effeithio ar eu cynllun gwaith blynyddol ac i adrodd yn flynyddol ar waith sy'n</p>	Cynnwys gofynion o ran y Gymraeg yn y broses llunio polisi.	<p>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl gamau gweithredu yn adran 2</p> <p>(d) Polisi / Cyd-gysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth (Cydgyssylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth)</p> <p>(d) Polisi</p> <p>(d) Polisi</p>	2(a) – (c) i gyd yn barhaus

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
	ymwneud â'r Cynllun sydd wedi'i gyflawni ganddynt yn y flwyddyn flaenorol, sy'n parhau ar y pryd, ac sy'n debygol o godi yn y flwyddyn nesaf.			
3. Recriwtio	<p>Sicrhau bod yr adran Adnoddau Dynol yn parhau'n ymwybodol o ymrwymiadau'r Weinyddiaeth yn y Cynllun Iaith Gymraeg yng nghyswllt recriwtio staff.</p> <p>Y Farnwriaeth:</p> <p>a) Parhau â'r system a sefydlwyd yn GLITEM i fonitro nifer y barnwyr Cymraeg eu hiaith a benodwyd a'u lleoliadau.</p> <p>b) Ymgynghori'n rheolaidd â'r Coleg Barnwrol i benderfynu pa gyfarwyddyd ar hyfforddiant y gallai fod ei angen ar y farnwriaeth sy'n gwrando achosion yng Nghymru mewn cysylltiad â defnyddio'r Gymraeg;</p> <p>c) Cael adroddiad cyfnodol ar y cynnydd a gafwyd yng nghyswllt ailystyried y dull o benodi ynadon yng Nghymru gan yr Arglwydd Ganghellor.</p> <p>Staff:</p> <p>d) Monitro ac adrodd ar y cynnydd ar drosglwyddo i system e-recriwtio Civil Service Resourcing (CSR) o haf 2014.</p>	<p>Bod system effeithiol ar gael i fonitro'r recriwtio ar staff a'r penodi ar farnwyr gan y Weinyddiaeth i sicrhau ei bod yn cyflawni ei hymrwymiadau o dan y cynllun iaith Gymraeg</p> <p>Bod achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fo angen</p> <p>Bod ymagwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr</p> <p>Bod y system e-recriwtio newydd yn bodloni gofynion Comisiynydd y Gymraeg – a'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.</p>	<p>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl gamau gweithredu yn adran 3</p> <p>(d) Adnoddau Dynol</p> <p>(d) GLITEM</p> <p>(d) Y Coleg Barnwrol</p> <p>(d) GLITEM / Pwyllgorau cynghorol yr ynadon</p> <p>(d) Adnoddau Dynol</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Mawrth 2015</p> <p>Medi 2014- Mawrth 2015</p>

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
4. Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd				
4.1 Cyffredinol	Dim camau gweithredu		Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r holl gamau gweithredu yn adran 4	
4.2 Gohebiaeth	<p>a) i) Atgoffa meysydd busnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth sy'n cynnal gweithrediadau yng Nghymru am yr angen i hysbysebu'r ffaith eu bod yn barod i dderbyn a delio â gohebiaeth yn Gymraeg - e.e. nodi hynny'n benodol mewn unrhyw ddogfen neu ddeunydd a gyhoeddir sy'n effeithio ar Gymru;</p> <p>ii) Ailroddi cyfarwyddyd i staff ynghylch dewisiadau o ran cyfieithu dogfennau a gohebiaeth i'r Gymraeg.</p> <p>b) Parhau â'r trefniadau monitro presennol fel y gellir monitro ar wahân yr amseroedd ymateb ar gyfer gohebiaeth Weinidogol ac atebion swyddogol yn Gymraeg a Saesneg.</p>	<p>Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru nad oedd eglurder ynghylch derbyn gohebiaeth Gymraeg.</p> <p>Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg o fewn yr un cyfnod â gohebiaeth arall</p>	<p>(d) Uned Ohebiaeth y Weinyddiaeth (a'r maes busnes gweithredol)</p> <p>(d) Uned Ohebiaeth y Weinyddiaeth</p> <p>(d) Uned Ohebiaeth y Weinyddiaeth</p>	<p>Parhaus</p> <p>Tachwedd 2014</p> <p>Parhaus</p>
4.3 Galwadau ffôn	a) Galwadau Ffôn: Ymchwilio gydag Uned yr Iaith Gymraeg i'r posibilrwydd o ddargyfeirio galwadau sydd wedi'u cyfeirio at bencadlys y Weinyddiaeth at yr Uned yn achos y galwyr hynny sydd am sgwrsio yn Gymraeg.	Ateb galwadau gan siaradwyr Cymraeg yn Gymraeg wrth ddod i gysylltiad am y tro cyntaf ond bydd yn rhaid i'r Uned ailgyfeirio'r prif ymholiad at y Weinyddiaeth i roi ateb terfynol ysgrifenedig.	(d) Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) / Uned yr Iaith Gymraeg	Parhaus Rhagfyr 2014

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
4.4 Digwyddiadau	a) Rhoi cyfarwyddyd i helpu staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth i ddeall y materion y bydd yn rhaid iddynt eu hystyried o dan y Cynllun Iaith Gymraeg wrth gynnal digwyddiadau yng Nghymru.	Dim cwynion yn dod i law ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru	(d) Cydgysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth	Rhoi nodyn atgoffa ym mis Tachwedd 2014
4.5 - 4.6 Hunaniaeth gorfforaethol	a) Bydd Timau Cyfathrebu a Chyhoeddiadau'r Adran yn parhau i fonitro, cofnodi ac adrodd yn flynyddol ar y defnydd o'r Gymraeg gan Swyddfa'r Wasg a changen cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth.	Cysondeb o ran y ffordd o ddefnyddio'r Gymraeg.	(d) Tîm Cyfathrebu Corfforaethol	Parhaus
4.7 - 4.13 Cyhoeddiadau a Ffurflenni	a) Monitro yn yr un modd â 4.5 – 4.6 (a) uchod b) Hybu ymwybyddiaeth staff ynghylch pa bryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân – drwy gyfeirio at y systemau sgorio yn Atodiadau B ac C i'r cynllun	Cysondeb o ran y ffordd o ddefnyddio'r Gymraeg. Bod yr holl ddogfennau a gynhyrchir mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynhyrchu at yr un safon ac yn ôl yr un amserlen.	d) Tîm Cyfathrebu Corfforaethol (d) Cydgysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth	Parhaus Parhaus
4.14 - 4.17 Hysbysiadau i'r wasg, Ymgyrchoedd Cyhoeddus-rwydd a hysbysebu; hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus.	a) Monitro yn yr un modd â 4.5 – 4.6 (a) uchod	Cysondeb o ran y ffordd o ddefnyddio'r Gymraeg.	(d) Cydgysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth	Parhaus

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
4.18 - 4.22 Gwefan, Trefniadau gweinyddol	<p>a) Bydd y Weinyddiaeth yn parhau i ddarparu cyhoeddiadau pan fo angen.</p> <p>b) Bydd Cydgysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth yn cael cadarnhad cyfnodol gan eu meysydd busnes (cyrff hyd braich a changhennau cyflawni) ynghylch cynnydd ar osod eu cyfieithiadau Cymraeg angenrheidiol ar dudalennau rhyngrwyd.</p>	Llai o gwynion ynghylch diffyg cynnwys Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol	<p>(d) Tîm Cyfathrebu Corfforaethol / Tîm Cyhoeddiadau'r We</p> <p>(d) Cydgysylltwyr Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth</p>	Mawrth 2015
4.23 – 4.26 Darparu Gwasanaethau ar ran y Weinyddiaeth gan bartïon eraill	<p>a) Rhoi cyfarwyddyd i helpu staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth i ddeall goblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg os byddant yn caffael gwasanaethau gan drydydd partïon;</p> <p>b) Cynnwys gwiriadau mewn prosesau caffael i sicrhau bod yr agwedd Gymraeg yn cael ei hystyried ar yr adeg briodol. Gellir ymgynghori â Chyfarwyddwr Cyflawni GLITEM dros Gymru, sef y deiliad allweddol ar gyfer materion Cymraeg, er mwyn cael cyfarwyddyd fel y bo'n briodol.</p>	Bod staff yn ymwybodol o drefniadau i gynnwys ystyriaethau o ran y Gymraeg mewn cytundebau contractio â thrydydd partïon	<p>Bydd y canlynol yn gyfrifol am gyflawni camau (a) a (b):</p> <p>Tîm Caffael y Weinyddiaeth / maes busnes gweithredol y Weinyddiaeth neu dimau Polisi fel y bo'n briodol</p>	4.23 – 4.26 (a) a (b)) – b) i gyd yn gamau gweithredu parhaus i feysydd cyflawni busnes
4.27 Dyrannu grantiau	a) Parhau i sicrhau bod tîm Trydydd Sector y Weinyddiaeth yn ymwybodol o'r ddarpariaeth yn Adran 4:28 o'r cynllun hwn ynghylch dyrannu grantiau	Dyfarnu grantiau'n unol â'r ymrwymadau yn y cynllun hwn	<p>(g) Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol</p> <p>(d) tîm y Trydydd Sector</p>	Tachwedd 2014

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
5. Gweithredu, Monitro ac Adrodd ar y Cynllun Iaith Gymraeg	<p>a) Cydgysylltu'r broses o weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cyhoeddi'r cynllun diwygiedig ar wefan y Weinyddiaeth a chyhoeddi datganiad i'r wasg; - Hysbysebu'r cynllun diwygiedig ymysg staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth a rhoi cyfarwyddyd i'w helpu i ddeall unrhyw ofynion a'u bodloni. <p>b) Atgoffa staff ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth bob blwyddyn am y Cynllun Iaith Gymraeg a'u cyfrifoldebau, rhoi mwy o gymorth i'r meysydd busnes y bydd yr effaith fwyaf arnynt (e.e. cynnal gweithdai ymwybyddiaeth o'r Cynllun neu ei gynnwys yn y sesiynau hyfforddi presennol ar bolisi).</p>	<p>Bod polisïau, mentrau a gwasanaethau'n gyson â'r ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg</p> <p>Cynnwys gofynion o ran y Gymraeg yn y broses llunio polisi.</p>	<p>(g) Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol</p> <p>(d) Tîm Cyfathrebu Corfforaethol</p> <p>(g) Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Dadansoddol</p> <p>(d) Tîm Cyfathrebu Corfforaethol</p>	<p>5(a) - (e) i gyd yn barhaus</p>

Adran	Camau Gweithredu	Meini Prawf Llwyddo	Yn gyfrifol am Oruchwylio (g) a Darparu (d)	Dyddiad Targed
	<p>c) Os bydd y Weinyddiaeth yn gwneud trefniadau â thrydydd partion, bydd yn cynnwys gofyniad i fonitro trefniadau ynghylch defnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â gofynion monitro eraill.</p> <p>d) Monitro darparwyr gwasanaethau sydd o dan ddyletswydd i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg gan sicrhau bod manylebau'n gyson â'r gofyniad yn y cynllun hwn.</p> <p>e) Bydd yn ofynnol bod timau meysydd busnes ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth sy'n defnyddio asiantau neu gontractwyr i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth yr asiantau neu gontractwyr â thelerau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn eu cytundebau neu drefniadau.</p>	<p>Bod staff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth gan ddarparwyr gwasanaethau â threfniadau ynghylch y Gymraeg mewn cytundebau contractio</p> <p>Bod asiantau neu gontractwyr yn monitro ac yn adrodd ar eu cydymffurfiaeth â'r trefniadau ynghylch y Gymraeg yn y contract neu gytundeb.</p>		

Holiadur

Byddwn yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn y papur ymgynghori hwn. Cewch ymateb drwy lenwi fersiwn electronig o'r ffurflen hon neu cewch lenwi'r fersiwn bapur hon o'r ffurflen. Mae rhagor o fanylion ar dudalen 45.

Llenwch yr holiadur isod i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r profforma yn gofyn am eich barn ynghylch pob adran o gynllun iaith Gymraeg diwygiedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder (y cynllun hwn). **1. Adran 1: Cyflwyniad**

1.1 A ydych yn cytuno y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fod â chynllun iaith Gymraeg?

Ydw / Nac ydw

Unrhyw sylwadau pellach?

1.2 Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch a ddylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fod â chynllun iaith Gymraeg.

2. Adran 2: Datblygu a Gweithredu Polisi

2.1. A ydych yn cytuno ar yr adran Datblygu a gweithredu polisi yn y cynllun hwn?

Ydw / Nac ydw

Unrhyw sylwadau pellach?

2.2. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu asesu effeithiau polisiâu ar siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Adran 3: Recriwtio

3.1. A ydych yn cytuno ar yr adran Recriwtio yn y cynllun hwn?

Ydw / Nac ydw

Unrhyw sylwadau pellach?

3.2 Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cydnabod ac yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg.

4. Adran 4: Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd

4.1. A ydych yn cytuno ar yr adran Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd yn y cynllun hwn?

Ydw / Nac ydw

Unrhyw sylwadau pellach?

4.2. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu sicrhau bod ein darpariaethau ar gyfer gwasanaethau i'r cyhoedd a) yn ystyried a b) yn caniatáu hyblygrwydd o ran defnyddio'r Gymraeg.

Adran 5: Gweithredu, Monitro a Chyhoeddi'r cynllun hwn

5.1. Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu gweithredu, monitro ac adrodd ar y cynllun hwn.

Adran 6.1: Rhowch unrhyw sylwadau cyffredinol sydd gennych am y cynllun isod.

6.2 Pa faterion allweddol eraill y byddech yn dymuno i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder eu hystyried / trafod yng nghyswllt y cynllun iaith Gymraeg hwn

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybod i ni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha gymhwyster yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os ydych am i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp a disgrifiad byr o'r bobl neu sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Rhagfyr 2014 i:

Drwy'r e-bost: MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk

Drwy'r post:

Aeion Swinton
Ministry of Justice
Analytical Services Directorate, Better Regulations
7th Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 0203 334 3904

E-bost: Aeion.Swinton@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol ar gael o'r papur ymgynghori hwn o'r cyfeiriad uchod ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <http://www.gov.uk/moj/index.htm>.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy'r e-bost yn MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk a thros y ffôn drwy gysylltu ag Uned Rheoliadau Gwell y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 0203 334 3904.

Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur a fydd yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn haf 2015. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.gov.uk/moj/index.htm>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi disgrifiad byr o'r bobl a sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefnau ar gyfer yr hawl i weld gwybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol, dylid cofio bod Cod Ymarfer statudol, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymdrin a rhwymedigaethau o ran cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. Oherwydd hynny, byddai o

gymorth pe gallech egluro i ni pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi pob ystyriaeth i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Os bydd eich system TG yn cynhyrchu ymwadiad ynghylch cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd y Weinyddiaeth yn ystyried hwnnw'n rhwymol ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, mae hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partion.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>

© Hawlfraint y Goron 2014
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch neges e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi bod deunydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill drwy wneud cais i: Ministry of Justice, Analytical Services Directorate, SRFFAS, Better Regulations Unit, 7th Floor, 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 0203 334 3904 a gellir gwneud cais amdanynt drwy'r e-bost i: **MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk**